**DATGANIAD STRATEGAETH Y GRANT DATBLYGU DISGYBLION**

*Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2025 i 2026.*

*Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.*

***Trosolwg Ysgolion***

| Manylion | Data |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Bro Cinmeirch |
| Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol | 97 |
| Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD | 7.2% |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | 05.12.2025 |
| Dyddiad y caiff ei adolygu | Medi 2026 |
| Awdurdodwyd y datganiad gan | Hywel Roberts |
| Yn arwain ar y GDD | Ffion Higgins |
| Llywodraethwr sy'n arwain | John Lovegrove |

**Trosolwg Cyllid**

| Manylion | Swm |
|---|---|
| Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon | £4,600 |
| | |
| | |
| **Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon** | £4,600 |

**Rhan A: Cynllun Strategaeth**

***Datganiad o Fwriad***

Byddem yn ceisio lleihau effaith tlodi ar gynnydd gan ddefnyddio'r dulliau addysgeg fwyaf effeithiol ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, gan gynnwys mewn cyd-destun dysgu cyfunol.
Byddem yn cefnogi llesiant dysgwyr a'u parodrwydd i ddysgu yn y dosbarthiadau, yn yr ysgol yn gyffredinol a drwy gyngor gan y grŵp Lleisiau Lles.

### *Canlyniadau a fwriedir*

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

| Canlyniad a fwriedir | Meini prawf llwyddiant |
|---|---|
| Cefnogi dysgu mewn cyd-destun dysgu cyfunol | Sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd i fynychu gwersi canu/ cael cymryd rhan a dysgu eitemau ar gyfer yr Eisteddfod.<br><br>Magu hyder drwy gelfyddydau mynegiannol.<br><br>Cyfansoddi caneuon fel rhan o ddosbarthiadau am faterion penodol, ymdeimlad o berthyn yn yr iaith Gymraeg. |
| Cefnogi dysgu emosiynol a chymdeithasol | Cyngor Lleisiau Lles yn hyderus yn cefnogi disgyblion a staff i deimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Cornel clud wedi eu creu fel fod disgyblion yn gallu cael amser i reoli emosiynau fel eu bod yn barod i ymuno mewn gweithgareddau dosbarth.<br><br>Staff yr ysgol yn teimlo'n hyderus yn delio gyda emosiynau a sefyllfaoedd amrywiol.<br><br>Digwyddiadau penodol mewn blwyddyn yn canolbwyntio ar emosiynau/lles. Cydweithio gyda'r gymuned mewn digwyddiadau amrywiol yn ystod y flwyddyn e.e diwrnod Gwener Gwenu. |

### Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i fynd i'r afael â'r heriau a restrir uchod.

| |
|---|
| Byddwn yn gwario ar amrywiaeth o adnoddau, staffio a defnyddio arbenigedd bobl yn y gymuned/ ardal leol i fynd i'r afael ar yr amcanion uchod. |

## Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: £ *[5,435]*

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Gwella'r ddarpariaeth ymyraethau ar draws yr ysgol drwy sicrhau bod gan y cydlynydd ALENCo gyfleoedd rheolaidd i gydweithio â chydweithwyr a chael mynediad at gyrsiau a hyfforddiant perthnasol. Sicrhau bod adnoddau pwrpasol ar waith i alluogi pob disgybl yn gwneud cynnydd cynaliadwy a mesuradwy. | Cofnodion o'r ALENCo yn mynychu hyfforddiant, cyrsiau, neu rwydweithiau Anghenion Dysgu Ychwanegol.<br>Amserlenni ymyrraeth a mapiau darpariaeth wedi'u diweddaru.<br>Nodiadau monitro yn dangos adolygiad o ymyraethau a'u heffaith.<br>Data cynnydd disgyblion, asesiadau cyn/ar ôl ymyrraeth.<br>Tystiolaeth o adnoddau. |
| Parhau i gynnal amgylcheddau awyr agored o ansawdd uchel ac ysgogol ledled yr ysgol. Sicrhau bod y mannau hyn yn cael eu defnyddio ym mhob tymor ac yn darparu heriau pwrpasol ac sy'n annog annibyniaeth. | Llais y disgyblion yn tynnu sylw at fwynhad a defnydd pwrpasol o fannau awyr agored.<br>Teithiau dysgu yn dangos disgyblion yn defnyddio ardaloedd awyr agored ar draws gwahanol dymhorau.<br>Arsylwadau staff yn dangos disgyblion yn ymgymryd â thasgau annibynnol yn yr awyr agored.<br>Ffotograffau o ddarpariaeth awyr agored.<br>Tystiolaeth cynllunio.<br>Craffu ar lyfrau. |

## Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol

### *Canlyniadau'r GDD*

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2024 i 2025.

Defnyddiwyd y grant GDD i ddatblygu amgylcheddau dysgu awyr agored ar gyfer disgyblion CA2 yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Cafodd staff y cyfle i ymweld ag ysgol arall i gael ysbrydoliaeth, a helpodd i lunio'r ddarpariaeth. Mae'r mannau awyr agored bellach wedi'u sefydlu, gydag adnoddau a siediau newydd wedi'u prynu i gefnogi gweithgareddau. Mae disgyblion CA2 yn elwa o heriau prynhawn rheolaidd, gan gynnwys amrywiaeth o weithgareddau fel celfyddydau mynegiannol, dyniaethau, TGCh, a mwy.

Mae'r ddarpariaeth wedi'i hymgorffori'n dda ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad disgyblion, creadigrwydd a dysgu annibynnol.

Cefnogodd y cyllid hefyd i sefydlu Cyngor y Lleisiau Lles, sydd wedi gweithredu sawl menter gan gynnwys blwch pryderon, cornel clyd, mainc ffrindiau ffeind, a system ffrindiau ffeind i feithrin cysylltiadau ymhlith disgyblion. Rhoddir blaenoriaeth i les staff trwy 'nodiadau neis' wythnosol, ac mae digwyddiadau lles cymunedol fel 'Gwener Gwenu' ar ddydd Gwener yn cynnwys busnesau lleol. Nododd Estyn fod "lles disgyblion a staff wrth wraidd gweledigaeth yr ysgol" a thynnodd sylw at y ffaith bod “bron pob disgybl yn teimlo'n hapus yn yr ysgol.

Mae’r grant wedi cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad, annibyniaeth, creadigrwydd a lles disgyblion ar draws yr ysgol.